# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) a (Ffurflen a Manylion Cymraeg) (Diwygio) (Cymru) 2000

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn yn uniongyrchol yn sgil Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2000 a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 11 Ebrill 2000. Mae perthynas agos rhyngddynt â Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2000.

Bydd yr Aelodau'n cofio bod y Rheoliadau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2000 eu hunain wedi dod yn sgil y newidiadau a wnaed i'r system fudd-daliadau a'u bod yn ymwneud ag effaith y newidiadau hyn ar y prawf moddion ariannol ar gyfer grantiau adnewyddu tai.

Nodwyd y ffurflenni a oedd i'w defnyddio gan berchen-feddianwyr wrth wneud cais am grantiau yn Gymraeg yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) 1998 ac yn Saesneg yn yr Atodlen i Reoliadau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) 1996.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r ffurflenni cais, sef diwygiadau sy'n dilyn y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2000.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Teitl**

Gan fod y rheoliadau hyn yn diwygio dwy set o reoliadau presennol, mae'r teitl yn hir iawn a hynny am ei fod yn cyfeirio at "Ffurflenni a Manylion a Ragnodir" a "Ffurflenni a Manylion Cymraeg". Serch hynny, mae hyn i'w gyferbynnu â Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni

Cais) (Diwygio) (Cymru) 2000, sy’n diwygio dwy set o reoliadau presennol hefyd, a lle mae’r teitl wedi’i symleiddio drwy gyfeirio at "Ffurflenni Cais" yn unig. Gallai rhywbeth tebyg fod wedi’i wneud yn yr achos hwn.

**Y Nodyn Esboniadol**
Gan fod y Rheoliadau yn ymwneud â diwygiadau i’r system fudd-daliadau, buasai wedi bod o gymorth petai’r Nodyn Esboniadol wedi cynnwys crynodeb o’r newidiadau hynny.

**Yr Atodlen – paragraff 5**
Mae yna rywfaint o amwysedd yn y cwestiwn "ydych chi... yn cael yr isafswm cyflog gwladol…?", gan y gellid ei ddehongli fel petasai’n golygu cael union isafswm y cyflog gwladol, ac y gallai hynny yn ei dro arwain at yr ateb "Nac ydwyf/Nac ydyw" oddi wrth geiswyr sy’n cael mwy na’r isafswm cyflog. Byddai’r cwestiwn "ydych chi’n cael *llai na’r* isafswm cyflog?" yn dileu’r amwysedd posibl hwn.

Mae yna rai mân wallau teipograffyddol hefyd.

Dylid cael "y" cyn "Rheoliadau" ym mharagraff 3 gan mai dynodi Rheoliadau penodol yw’r bwriad. Yn ychwanegol, ar ddiwedd paragraff 3, mae’r dyfynodau o chwith yn y testun Saesneg.

Ar ôl paragraff 12, nid yw trefn y rhifau yn nhestun Cymraeg yr Atodlen yn gywir am ei bod fel a ganlyn –

11, 12, 12, 13, 14, 16.

Ar ddiwedd paragraff 12 (y testun Cymraeg) /13 (y testun Saesneg) mae’r dyfynodau wedi’u hepgor.

Mae pob un o’r materion hyn yn syml a gellir eu cywiro yn y fersiwn brintiedig derfynol.

**DYLAN M HUGHES**
**Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

19 Ebrill 2000
Ein Cyf: LAD 01-01-114